

## Cwestiynau Cyffredin Cludiant i'r Ysgol

Dewch o hyd i atebion i'r cwestiynau mwyaf cyffredin ynghylch cludiant i'r ysgol...

### A oes modd i fy mhlentyn gael cludiant am ddim i'r ysgol?

Caiff cludiant am ddim i'r ysgol briodol agosaf ei ddarparu i blant rhwng 5 ac 16 mlwydd oed os ydynt yn byw:

- dros ddwy filltir o ysgol gynradd, neu
- dros dair milltir o ysgol uwchradd

Caiff cludiant am ddim ei ddarparu i blant rhwng 5 ac 16 mlwydd oed pan mae'r:

- ffordd i'r ysgol wedi cael ei archwilio a chaiff ei hystyried yn berygl
- plentyn wedi derbyn Datganiad o Angen Addysgol Arbennig sy'n enwi ysgol
- cludiant ei angen ar sail feddygol, ond nid oes cludiant cyhoeddus addas ar gael
- plentyn yn byw 2.5 milltir o'r ysgol ac mae'r rhieni yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Credyd Treth Gwaith

Os ydych chi'n bodloni'r meini prawf uchod ac yn credu eich bod yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim i'r ysgol, bydd angen i chi wneud cais ar-lein:

[www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Transport-Application.aspx](http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Transport-Application.aspx)

Unwaith rydych wedi cyflwyno cais, byddwn yn asesu eich cais yn unol â'r meini prawf cymhwysedd. Os yw eich plentyn yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim i'r ysgol, yna bydd y trefniadau teithio angenrheidiol yn cael eu gwneud.

Gallwch wirio'r meini prawf cymhwysedd ar-lein:

<http://www.flintshire.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Transport/Transport-Eligibility-Criteria-.pdf>

### Sut ydw i'n gwneud cais am gludiant i'r ysgol?

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am gludiant i'r ysgol ar gyfer plentyn a fydd yn dechrau yn yr ysgol gynradd (dosbarth derbyn), neu yn yr ysgol uwchradd (blwyddyn 7) ym mis Medi 2018, dylech wneud cais cyn gynted â phosib. Gellir gwneud hyn drwy gwblhau ffurflen gais cludiant i'r ysgol ar-lein ar wefan Sir y Fflint:

<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Transport-Application.aspx>

Gellir gwneud ceisiadau ar gyfer disgyblion ym mlynnyddoedd 1-6 ac 8-11 unrhyw bryd, ond nodwch y wybodaeth isod os ydych chi eisiau adnewyddu cludiant eich plentyn yn unig.

### Pryd alla i wneud cais am gludiant i fy mhlentyn?

Mae'r rhan fwyaf o geisiadau am gludiant yn cael eu cyflwyno gan rieni/ofalwyr mewn pryd ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi, unwaith mae lle wedi ei gadarnhau i'ch plentyn yn yr ysgol.

I sicrhau fod gennych drefniadau cludo ar gyfer mis Medi, cyflwynwch eich cais rhwng y dyddiadau isod, os gwelwch yn dda:

- Bydd ffurflenni cais ar-lein ar gael i chi ar **1 Chwefror 2019**  
*Byddwn yn rhoi gwybod i chi ein bod wedi derbyn eich cais o fewn 10 diwrnod gwaith*
- Mae'n rhaid cwblhau ffurflenni a'u dychwelyd dim hwyrach na **31 Mai 2019**

Efallai y bydd adegau pan fyddwch yn gwneud ceisiadau ar gyfer cludiant tu allan i'r dyddiadau hyn, efallai yn ystod y flwyddyn ysgol pan mae anghenion eich plentyn wedi newid, eich bod wedi symud tŷ, neu fod eich sefyllfa ariannol wedi newid. Gallwch gyflwyno cais unrhyw bryd. Cofiwch, er mwyn sicrhau cludiant ar gyfer dechrau'r flwyddyn ym mis Medi, bydd angen i chi wneud cais rhwng y dyddiadau uchod.

### **Beth os ydw i'n hwyr yn cyflwyno fy nghais?**

Mae'n well cyflwyno eich cais cyn gynted â phosib. Bydd ceisiadau sy'n dod i law cyn y dyddiad cau yn cael eu hystyried yn gyntaf.

Os ydym yn derbyn eich cais ar ôl y dyddiad cau, ni allwn sicrhau y bydd yn cael ei hystyried mewn pryd ar gyfer trefniadau dechrau'r flwyddyn ym mis Medi, ac efallai y bydd yn rhaid i chi aros nes hanner tymor mis Hydref.

Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried mewn trefn blaenoriaeth, pan mae sail feddygol neu angen addysgol arbennig er enghraifft, byddant yn cael eu hystyried yn gyntaf.

### **Sut ydw i'n adnewyddu cludiant ar gyfer fy mhlentyn?**

Os yw eich plentyn yn gymwys ar gyfer cludiant cynorthwyol, wedi derbyn tocyn teithio yn y flwyddyn ysgol flaenorol a byddant yn parhau i fod yn gymwys pan maent yn parhau i'r flwyddyn ysgol nesaf, bydd eich manylion yn cael eu hadnewyddu'n awtomatig, ac ni fydd angen i chi ail wneud cais ar gyfer eu cludiant.

Os oes unrhyw newidiadau i'r Polisi Cludiant i'r Ysgol a fydd yn effeithio ar hawl eich plentyn i gael cludiant cynorthwyol, byddwn yn ysgrifennu atoch cyn gynted â phosib.

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau (megis newid ysgol neu gyfeiriad) oherwydd gall hyn effeithio ar hawl eich plentyn.

### **Mae fy mhlentyn yn mynd i ysgol gyfrwng Gymraeg, oes hawl ganddynt i gludiant am ddim?**

Caiff cludiant am ddim i'r ysgol briodol agosaf, cyfrwng Gymraeg ei ddarparu i blant rhwng 5 ac 16 mlwydd oed os ydynt yn byw:

- dros ddwy filltir o ysgol gynradd, neu

- dros dair milltir o ysgol uwchradd

Caiff cludiant am ddim i ysgol Gymraeg ei hiaith ei ddarparu i blant rhwng 5 ac 16 mlwydd oed pan mae'r:

- ffordd i'r ysgol wedi cael ei archwilio a chaiff ei hystyried yn berygl
- plentyn wedi derbyn Datganiad o Angen Addysgol Arbennig sy'n enwi ysgol
- cludiant ei angen ar sail feddygol, ond nid oes cludiant cyhoeddus addas ar gael
- plentyn yn byw 2.5 milltir o'r ysgol ac mae'r rhieni yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Credyd Treth Gwaith

### **Mae fy mhentyn yn mynd i ysgol ffydd, oes hawl ganddynt i gludiant am ddim?**

Bydd cludiant am ddim i'r ysgol wirfoddol a gynorthwyr agosaf yn cael ei ddarparu i blant rhwng 5 ac 16 mlwydd oed lle mae'r mynediad i'r ysgol ar sail enwadol, yn amodol ar y meini prawf pellter sy'n cael eu rhestru isod:

- dros ddwy filltir o ysgol ffydd gynradd, neu
- dros dair milltir o ysgol uwchradd ffydd

Gellir gofyn am dystiolaeth addas o ymlyniad wrth ffydd yr ysgol megis tystysgrif bedydd neu lythyr gan offeiriad.

Caiff cludiant am ddim ei ddarparu i blant rhwng 5 ac 16 mlwydd oed pan mae'r:

- ffordd i'r ysgol wedi cael ei archwilio a chaiff ei hystyried yn berygl
- plentyn wedi derbyn Datganiad o Angen Addysgol Arbennig sy'n enwi ysgol
- cludiant ei angen ar sail feddygol, ond nid oes cludiant cyhoeddus addas ar gael
- plentyn yn byw 2.5 milltir o'r ysgol ac mae'r rhieni yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Credyd Treth Gwaith

Yn ychwanegol at yr amodau uchod, bydd angen i blant sy'n mynd i ysgol ffydd gydymffurfio gyda '**meini prawf mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael**' pan ofynnir am dystiolaeth o ffydd o bosib.

[Cliciwch yma](#) i wybod mwy am y '**meini prawf mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael**'.

### **Ydy fy mhlant yn gymwys i gael cludiant sy'n asesu incwm rhieni?**

Yn gyffredinol bydd gan eich plentyn hawl i gludiant am ddim i'r ysgol os ydynt o oedran ysgol uwchradd (11-16 mlwydd oed, blwyddyn ysgol 7-11) ac rydych un ai'n:

- Gymwys i brydau ysgol am ddim neu'n
- Derbyn lefel uchaf credyd treth gwaith ac yn gallu darparu copi o'r hysbysiad dyfarnu'r credyd treth (ffurflen TC602), neu lythyr diweddar gan yr Asiantaeth Budd-Daliadau, yn cadarnhau eich bod yn derbyn lefel uchaf credyd treth gwaith

### **Rwyf dros 16 mlwydd oed ac yn mynd i'r ysgol/coleg, ydw i'n gymwys ar gyfer cludiant am ddim?**

Mae myfyrwyr sy'n 16 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn mynd i'r ysgol neu goleg yn gymwys ar gyfer gludiant am ddim i safleoedd penodol pan:

- maent yn byw dros dair milltir o'r ysgol/coleg agosaf sy'n cynnig y cyrsiau maent yn dymuno eu hastudio
- mae'n un o'r cyrsiau cyntaf o astudio llawn amser ar ôl gadael yr ysgol
- mae'r cwrs a ddilynir un lefel yn uwch na beth a astudiwyd yn yr ysgol, er enghraifft, ni fyddai ailsefyll TGAU fel arfer yn cymhwyso
- mae'r cwrs sy'n cael ei gynnig yn un o'r lleoliadau penodol canlynol:
  - Ysgol uwchradd yn Sir y Fflint sy'n cynnig cyrsiau ôl-16
  - Ysgol Uwchradd Gatholig Caer
  - Ysgol Uwchradd Prestatyn
  - Chweched y Rhyl
  - Ysgol y Santes Ffraid, Dinbych
  - Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy  
(Ar gyfer y lleoliadau a restrir uchod, gwnewch **gais i Gyngor Sir Y Fflint**)
  - Coleg Cambria – Safle Cei Connah
  - Coleg Cambria – Safle Llaneurgain
  - Coleg Cambria – Safle Wrecsam
  - Coleg Cambria – Safle Llysfasi (ar gyfer cyrsiau yn ymwneud â'r tir yn unig)  
(Ar gyfer y lleoliadau a restrir uchod, gwnewch **gais yn uniongyrchol i Goleg Cambria - cliciwch yma**)

Os gwneir cais am gludiant i un o'r **ysgolion** penodol a restrir uchod, ac nid honno yw'r agosaf i gartref y myfyriwr, yna bydd y Cyngor yn cymharu'r cyrsiau yn y ddau leoliad. Caiff y cais ei gymeradwyo pan yr ystyrir bod gwahaniaeth sylweddol yn y cwrs a gynigir.

### **Rwyf dros 19 mlwydd oed ydw, i'n gymwys ar gyfer cludiant am ddim i'r coleg?**

Darperir cludiant am ddim i fyfyrwyr cymwys sydd wedi cyrraedd 16 mlwydd oed ond heb gyrraedd 19 mlwydd oed ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd honno.

Caiff cludiant am ddim ei gynnal i fyfyrwyr ar gyfer cyfnod eu cwrs cychwynnol, hyd yn oed os ydynt yn cyrraedd eu pen-blwydd yn 19 mlwydd oed cyn y daw'r cwrs i ben.

### **Mae fy mhentyn yn mynd i'r ysgol yn Sir y Fflint, ond nid ydym yn byw yn Sir y Fflint, i le ydw i'n gwneud cais?**

Bydd angen i chi wneud cais i'r Cyngor lle rydych yn **byw**, er enghraifft:

- os yw eich plentyn yn mynd i'r ysgol yn Sir y Fflint a'ch bod yn **byw** yn Sir Ddinbych, mae'n rhaid i chi wneud cais i Gyngor Sir Ddinbych

### **Rydym yn byw yn Sir y Fflint, ond mae fy mhentyn yn mynd i'r ysgol mewn Sir arall, i le ydw i'n gwneud cais?**

Bydd angen i chi wneud cais i'r Cyngor lle rydych yn **byw**, er enghraifft:

- os ydych chi'n **byw** yn Sir y Fflint ond mae eich plentyn yn mynd i'r ysgol yn Sir Ddinbych, mae'n rhaid i chi wneud cais i Gyngor Sir y Fflint.

### **Pryd fyddaf yn cael gwybod bod cais fy mhleintyn wedi bod yn llwyddiannus?**

Bydd ceisiadau sy'n dod i law erbyn dyddiad cau 31 Mai 2019 yn cael eu hystyried rhwng 1 a 30 Mehefin 2019, a byddwn yn rhoi gwybod i chi a yw eich cais yn un llwyddiannus neu beidio ar 19 Gorffennaf 2019.

### **Beth os yw fy nghais yn aflwyddiannus?**

Os yw eich cais yn aflwyddiannus, mae cyfle i chi wneud cais ar gyfer Seddi Gwag Rhatach.

Mae adegau, ar rai llwybrau, pan mae nifer y plant cymwys yn llai na'r nifer o seddi sy'n cael eu darparu ar y bws. Pan mae hyn yn digwydd, bydd plant sy'n bodloni meini prawf ar gyfer cludiant am ddim i'r ysgol yn cael cyfle i brynu un o'r seddi gwag hyn. [Cliciwch yma](#) i ddarganfod rhagor am seddi gwag rhatach.

### **Pryd fydda i'n cael gwybod am fanylion y trefniadau cludo?**

Ar, neu o gwmpas 19 Gorffennaf, byddwch yn derbyn neges e-bost yn rhoi manylion trefniadau cludo eich plentyn.

### **Pa fath o gludiant fydd yn cael ei ddarparu?**

Byddwn yn ysgrifennu atoch ymlaen llaw, yn eich cyngori o'r trefniadau sydd gennym ar waith. Efallai byddwn yn darparu tacsi, bws mini, coets neu fws gwasanaeth bws cyhoeddus i'ch plentyn, yn dibynnu ar amryw ffactorau megis y lleoedd ar gael ar wasanaethau presennol.

### **Ydw i'n cael dewis y darparwr cludiant?**

Caiff cludiant ei ddarparu gan ddarparwyr ar restr Fframwaith y Cyngor yn unig. Caiff pob contract cludiant ei ddyfarnu'n dilyn ymarfer tendro cystadleuol.

### **Pryd fydda i'n derbyn fy nhocyn bws ysgol?**

Os ydych chi wedi gwneud cais ar gyfer cludiant eich plentyn i'r ysgol cyn 6 Gorffennaf 2018, bydd tocyn teithio ar gyfer mis Medi 2018 yn cael ei anfon i gyfeiriad eich cartref cyn diwedd mis Gorffennaf 2018. Os nad ydych chi wedi derbyn y tocyn bws cyn y cyfnod hwn, ac rydych chi wedi ymgeisio cyn y dyddiad cau, cysylltwch â'r Uned Trafnidiaeth Integredig drwy anfon neges e-bost at [school.transport@flintshire.gov.uk](mailto:school.transport@flintshire.gov.uk)

Os gwnaed eich cais ar ôl i'r tymor ddechrau neu hanner ffordd drwy'r flwyddyn academiaidd ac mae eich plentyn yn gymwys, byddwn yn anelu at ddsbarthu'r tocyn o fewn 14 diwrnod.

Nodwch, efallai y bydd ceisiadau sy'n cael eu gwneud yn ystod adegau prysur yn cael eu hoedi, ac felly, rhieni/gofalwyr sy'n gyfrifol am wneud unrhyw drefniadau teithio dros dro.

Pan rydych yn derbyn y tocyn teithio, sicrhewch eich bod yn ei gadw yn ddiogel. Os ydych chi'n talu tuag at gostau teithio eich plentyn, ni fydd tocynnau'n cael eu dosbarthu nes y gwneir taliad.

### **Beth ddylwn i wneud os yw'r manylion ar y tocyn bws yn anghywir?**

Cysylltwch â'r Uned Trafnidiaeth Integredig drwy anfon neges e-bost at [school.transport@flintshire.gov.uk](mailto:school.transport@flintshire.gov.uk), byddwn yn ceisio trefnu un newydd yn syth.

### **Oes angen i ddisgyblion gario eu tocyn bob dydd?**

Mae'n bwysig bod pob disgybl yn cario eu tocyn yn barod i'w ddangos i'r gyrrwr bob tro maent yn defnyddio'r drafnidiaeth. Mae'n rhaid cadw'r tocynnau'n ddiogel ac mewn cyflwr da. I sicrhau mai'r disgyblion hynny sy'n gymwys i deithio sy'n gwneud hynny'n unig, mae cludwyr bysiau yn cael cyfarwyddiadau i weithredu polisi 'dim tocyn, dim teithio'.

Mae'n rhaid adnewyddu tocynnau coll neu wedi eu difrodi yn syth. Ar hyn o bryd, nid oes ffi ynghlwm â chael tocyn bws newydd, os dosbarthwyd y tocyn gan y Cyngor.

### **Ar gyfer pa siwrneiau a phryd y gellir defnyddio'r tocyn teithio?**

Mae tocynnau yn ddilys ar gyfer siwrnai dychwelyd o/i'r ysgol/coleg, ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig, oni nodir yn wahanol. Caiff camddefnydd a/neu ddefnydd twyllodrus o'r tocynnau teithio eu trin fel mater difrifol a fydd efallai'n arwain at ddiddymu'r cludiant. Gall unrhyw un o'r canlynol arwain at gymryd y tocyn oddi ar y disgybl:

- Defnydd gan unrhyw un arall ac eithrio deiliad y tocyn
- Ymgais i'w ddefnyddio ar siwrneiau anawdurdodedig
- Defnyddio tocyn teithio sydd wedi'i ddifrodi neu ei ddifwyno
- Defnyddio tocyn sydd wedi dod i ben, nad yw'n ddilys mwyach

### **Beth sy'n digwydd os yw'r tocyn teithio yn cael ei golli neu ei ddifrodi?**

Mae'n rhaid cael tocyn teithio newydd cyn gynted â phosib. Ar hyn o bryd, nid oes ffi i gael tocyn bws newydd, os dosbarthwyd y tocyn gan y Cyngor.

Bydd disgwyl i ddisgyblion sy'n teithio ar wasanaethau bws cyhoeddus dalu'r ffi briodol nes y dosberthir tocyn newydd, ac ni fydd ad-daliadau ar gyfer unrhyw gostau cysylltiedig.

### **Gall fy mhlentyn deithio heb docyn bws?**

Na all. Bydd pob disgybl uwchradd sy'n gymwys i gludiant am ddim i'r ysgol yn cael tocyn bws, ac mae gofyn iddynt eu defnyddio i gael mynediad i gludiant i'r ysgol bob amser.

### **Sut ydw i'n dod o hyd i wybodaeth am amseroedd y bws ysgol a'r manau casglu?**

Mae manylion am lwybrau'r bws ysgol, darparwyr cludiant, manau casglu ac amseroedd i gyd ar gael ar wefan y Cyngor: <http://www.sirymfflint.gov.uk/cy/Resident/Streetscene/School-Bus-Timetables.aspx>

### **Beth sy'n digwydd os ydym ni'n newid ein cyfeiriad neu'n symud i ysgol wahanol?**

Mae'n rhaid adrodd newid cyfeiriad neu ysgol fel ein bod yn gallu ailasesu eich manylion a diweddarau ein cofnodion. Cysylltwch â ni drwy anfon neges e-bost at [school.transport@flintshire.gov.uk](mailto:school.transport@flintshire.gov.uk)

Bydd gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o'ch cyfeiriad os ydych chi wedi symud cyfeiriad e.e. Copi o fil Treth y Cyngor neu fil gwasanaethau.

### **Beth os oes angen canslo cludiant fy mhlentyn?**

Os nad yw eich plentyn yn gallu mynd i'r ysgol neu nid oes arnoch angen y cludiant mwyach, yna bydd gofyn i chi gysylltu â'r Uned Trafnidiaeth Integredig cyn gynted â phosib dros e-bost: [school.transport@flintshire.gov.uk](mailto:school.transport@flintshire.gov.uk)

### **A oes caniatâd i fy mhlentyn fwyta ac yfed ar gludiant i'r ysgol?**

Nac oes. Nid yw bwyta nac yfed yn cael ei ganiatáu ar gerbydau. Os oes gan eich plentyn gyflwr meddygol sy'n golygu bod yn rhaid iddynt fwyta'n gyson, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Uned Trafnidiaeth Integredig cyn y siwrnai.

### **A oes modd i fy mhlentyn gario offer ar gludiant i'r ysgol?**

Bydd caniatâd i gario offer a bagiau ychwanegol os:

- Oes digon o le ar y cerbyd
- Oes lle iddynt gael eu storio'n ddiogel
- Nad oes ffi ychwanegol o ganlyniad
- Nad yw'n achosi anghyfleustra i deithwyr eraill

Dylid ystyried dewisiadau eraill megis, a yw'r offer ar gael yn yr ysgol?

### **Beth os oes yw fy mhlentyn yn cario meddyginiaeth i'r ysgol?**

Dylid cadw meddyginiaeth yn ddiogel mewn cynhwysydd wedi'i selio a'i roi ym mag ysgol eich plentyn.

### **Cyfrifoldeb pwyl yw danfon fy mhlant i'r ysgol?**

Cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw sicrhau bod eu plant yn mynd ac yn dod adref o'r ysgol ar yr amser priodol bob dydd. Mae trefniadau teithio yn ystyriaeth bwysig pan mae rhieni/gofalwyr yn gwneud dewisiadau. Dylech feddwl pa mor ymarferol yw dewis ysgol nad yw o fewn pellter cerdded, ac eithrio os mai dyma eich ysgol agosaf a ddyrannwyd i chi. Eich cyfrifoldeb chi fel rhiant/gofalwr yw sicrhau bod trefniadau teithio i'r ysgol ar waith.

### **Sut gall ddewis rhiant effeithio hawl i gludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim?**

Os ydych chi'n dewis rhoi eich plentyn mewn ysgol arall i'r ysgol addas agosaf, yna chi sy'n gyfrifol am drefnu a thalu am gostau teithio i'ch ysgol ddewisol.

### **Pwy allu i gysylltu â nhw os oes unrhyw broblemau neu gwynion?**

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon uchel, fodd bynnag, efallai y bydd cyfnod pan fydd eich plentyn yn profi problemau gyda'r gwasanaeth bws neu dacsî.

Pan fydd gennych broblem, neu bryder, gallwch eu hadrodd drwy anfon neges e-bost at: [school.transport@flintshire.gov.uk](mailto:school.transport@flintshire.gov.uk).

Byddwn yn ymchwilio i'r broblem ac yn cymryd y camau gweithredu priodol.

### **Pa safonau sy'n ddisgwyliedig o gontractwyr a gyrwyr cludiant o'r cartref i'r ysgol?**

Dim ond cwmnïau sydd wedi cymhwyso ar ein fframwaith o gyflenwyr wedi'u cymeradwyo sy'n cael gwneud cais am gontractau cludiant o'r cartref i'r ysgol. I gymhwyso, mae'n rhaid iddynt allu dangos eu bod yn bodloni safonau yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, sicrwydd ariannol, yswiriant a rheoliadau gyrwyr.

Caiff canllaw i yrwyr ei ddsbarthu hefyd sy'n ymwneud â safonau ymddygiad y gyrrwr ac ymwybyddiaeth y cwsmer.

### **Os yw'r drafnidiaeth yn hwyr neu ddim yn cyrraedd, beth ddylwn i wneud?**

Weithiau, efallai y byddwch yn profi oedi annisgwyl neu broblemau, er ein bod yn gwneud ein gorau glas i geisio lleihau hyn. Disgwyliwch 15 munud ar ôl yr amser casglu ar yr amserlen. Os nad yw'r drafnidiaeth wedi cyrraedd ar ôl hyn, cysylltwch â'r Uned Trafnidiaeth Integredig ar 01352 701234.

Cysylltwch â'r Uned Trafnidiaeth Integredig os yw'r cludiant yn hwyr yn rheolaidd hefyd, drwy anfon neges e-bost at [school.transport@flintshire.gov.uk](mailto:school.transport@flintshire.gov.uk)

### **Eiddo coll – beth os yw fy mhlentyn yn gadael eiddo ar gludiant i'r ysgol?**

Mae modd i chi gysylltu â'r cwmni trafnidiaeth yn uniongyrchol neu gallwch gysylltu â'r Uned Trafnidiaeth Integredig a byddwn yn rhoi enw a rhif ffôn y cludwr i chi fel eich bod yn gallu cysylltu â nhw'n uniongyrchol a gwneud trefniadau i gasglu'r eiddo.

### **Gyda phwy ddylwn i gysylltu os oes gen i bryderon ynghylch cludiant fy mhlentyn?**

Cysylltwch â'r Uned Trafnidiaeth Integredig os ydych chi'n poeni neu'n pryderu am unrhyw agwedd o siwrnai eich plentyn, yn cynnwys ymddygiad teithwyr eraill, neu ddiogelwch neu ddiwynadwyedd y cerbyd. Gorau po gyntaf y cawn wybod am y broblem, fel y gallwn weithredu i'w datrys.

### **Beth sy'n digwydd mewn achos o ffordd yn cau?**

Fel arfer, byddwn yn derbyn rhybudd o flaen llaw os yw cynllun i gau ffyrdd. Pan mae cludiant i'r ysgol yn cael ei effeithio, efallai y bydd angen i chi drefnu manau casglu/danfôn gwahanol gyda'ch cludwr. Yna, byddwn ni'n trefnu bod rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu o drefniadau teithio dros dro.

Mewn argyfwng, efallai y bydd ffyrdd yn cau yn ddirybudd gan achosi oedi i gludiant i'r ysgol, byddwn yn cyhoeddi ffyrdd sydd wedi cau mewn argyfwng ar wefan Sir y Fflint pan fo hynny'n bosib.

Cysylltwch â'r Uned Trafnidiaeth Integredig unrhyw bryd os oes gennych bryderon am eich plentyn/plant yn cyrraedd yn hwyr.



## **Beth am dywydd garw?**

Gwrandewch ar eich gorsaf radio lleol i weld a yw ysgol eich plentyn wedi cau. Fel arfer, mae manylion ar gael ar wefan yr ysgol. Os oes ansicrwydd o hyd ynghylch a yw'r gwasanaeth yn parhau, cysylltwch â'r Uned Trafnidiaeth Integredig.

Mewn tywydd garw, efallai y bydd angen i gludwr ganslo'r daith i'r ysgol yn y bore ar fyr rybudd os nad ydynt yn credu y gallent ddod i'r ysgol yn ddiogel. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth, am gludiant i'r ysgol yn ystod cyfnodau o dywydd garw [yma](#)

[<https://www.flintshire.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Transport/School-Transport---Bad-Weather.pdf>]

Caiff diweddariadau yn ymwneud ag oedi neu ganslo ar gyfer gwasanaethau cludiant o'r cartref i'r ysgol wedi'u contractio eu hadrodd ar wefan Sir y Fflint, neu mae croeso i chi gysylltu â'r Uned Trafnidiaeth Integredig.

Os oes gennych ymholiad am lwybrau cludiant cyhoeddus, cysylltwch â'r cludwr.

## **Os yw fy mhlentyn yn cael ei fwlio ar gludiant, beth ddylwn i ei wneud?**

Mae gan ysgolion gyfrifoldeb dros ymddygiad plant ar y ffordd i, ac o'r ysgol, yn cynnwys wrth deithio ar gludiant o'r cartref i'r ysgol. Adroddwch unrhyw ddirywiadau i'r ysgol i ddechrau ac yna cysylltwch â'r Uned Trafnidiaeth Integredig.

## **Oes modd i ffrindiau a rhieni deithio ar gludiant i'r ysgol?**

Nac oes. Disgyblion cymwys yn unig sy'n cael teithio ar gerbyd cludiant i'r ysgol.

Mae pob sedd wedi ei dyrannu i ddisgyblion cymwys. Os yw plant ychwanegol yn teithio, gallai hyn achosi i'r cerbyd orlenwi.

Nid oes gan rieni hawl i deithio ar gludiant i'r ysgol ac eithrio dan amgylchiadau arbennig a threfniadau o flaen llaw gyda'r Uned Trafnidiaeth Integredig.

## **Oes newidiadau o gwbl yn cael eu gwneud i gludiant i'r ysgol?**

I sicrhau bod llwybrau teithio yn parhau i fod yn effeithlon ac yn gost effeithiol, mae'n hanfodol bod adolygiadau cyson yn cael eu cynnal. O ganlyniad, efallai y gwneir rhai newidiadau yn achlysurol i gludiant eich plentyn, ond byddwn yn sicrhau ein bod yn rhoi rhybudd ymlaen llaw o hynny.

## **Sut ydw i'n gwneud cais am sedd wag rhatach?**

Mae'r Cyngor yn darparu cludiant i ddisgyblion sy'n gymwys i deithio am ddim rhwng eu cartref a'r ysgol dan y polisi presennol. Er mwyn gwneud hyn, mae bysiau, bysiau mini a thacsis yn cael eu caffael yn arbennig ar gyfer cludiant i'r ysgol, ac mae'r rhwydwaith cludiant yn cael ei gynllunio i redeg yn y ffordd fwyaf cost effeithiol i wasanaethu'r disgyblion sy'n gymwys i gael cludiant am ddim. Gellir gwerthu

unrhyw seddi gwag ar y cludiant i ddisgyblion nad ydynt yn gymwys i deithio am ddim. Gelwir y lleoedd hyn yn Seddi Gwag Rhatach.

Bydd sedd ratach yn £100 y tymor, fesul disgybl, yn daladwy ymlaen llaw (ffi yn gywir o'r flwyddyn ysgol 2018/19).

### **Pa amodau eraill y dylwn wybod amdanynt?**

Dylai rhieni, myfyrwyr a phlant fod yn ymwybodol o God Ymddygiad Teithio Llywodraeth Cymru, sy'n nodi safonau i'w dilyn gan bawb i sicrhau bod siwrneiau i, ac o'r ysgol yn ddiogel ac yn diogelu lles pob teithiwr. I weld y canllaw yn llawn, [cliciwch yma](#).

---

### **Dogfennau defnyddiol/dolenni i dudalennau eraill ar fwydlen ochr dde'r wefan:**

[Derbyniadau Ysgol](#)  
[Rhestr Ysgolion 2018/2019](#)  
[Gwyliau'r Ysgol a Dyddiadau Hyfforddiant 2018/2019](#)  
[Mesur Teithio Gan Ddysgwyr 2008](#)  
[Cerdyn Gostyngiad Teithio Person Ifanc](#)  
[Diogelwch ar y Ffyrdd](#)  
[Cludiant Cyhoeddus](#)  
[Traveline Cymru](#)